

Gweledigaeth ar gyfer Bysiau yng Nghymru

Bysiau – yn dda ar gyfer pobl, yn dda ar gyfer cymunedau, yn dda ar gyfer yr amgylchedd ac yn dda ar gyfer Cymru

Mae angen bysiau arnon ni. Rydyn ni'n eu defnyddio i gyrraedd y gwaith, addysg a'r siopau. Maen nhw'n ein cysylltu ni â ffrindiau a theulu ac maen nhw'n ffordd wych o weld Cymru. Hefyd gall defnyddio bysiau yn lle'r car fod yn well ar gyfer cadw'n gorfforol weithgar.

Mae pobl sy'n defnyddio bysiau hefyd yn gwneud gwahaniaeth mawr ar gyfer Cymru. Os bydd rhagor o bobl yn gwneud dewis cadarnhaol i ddefnyddio'r bws yn hytrach na'r car, bydd hynny'n helpu'r amgylchedd, ein cymunedau, ein hardaloedd gwledig, a'n trefi a'n dinasoedd.

Er enghraifft, pan fydd pobl yn defnyddio bysiau maen nhw'n helpu i leihau tagfeydd yn ein trefi a'n dinasoedd ac o amgylch ein hysgolion lleol.

Gall defnyddio bysiau hefyd helpu i leihau ein hallyriadau carbon – mae trafndiaeth yn un o'r ffynonellau mwyaf o allyriadau carbon yng Nghymru. Mae allyriadau ceir a bysiau yn cynnwys nwyon tŷ gwyr, ond pe bai rhagor o bobl yn newid o'r car i'r bws byddai llai o garbon yn cael ei greu bob taith.

Hefyd pan fydd pobl yn defnyddio bysiau maen nhw'n helpu i gadw gwasanaethau ar agor sydd wir yn gallu gwneud gwahaniaeth i fywyd pobl. Yng Nghymru nid oes gan un o bob pedwar o bobl gar, ac yn aml mae'r bobl hyn yn dibynnu ar y bws i gyrraedd yr ysgol, y coleg neu'r gwaith.

Os bydd rhagor o ddefnyddwyr ceir yn dewis defnyddio'r bws byddan nhw'n helpu i gynnal gwasanaethau bysiau dibynadwy a fforddiadwy, a fydd yn eu tro yn gwneud gwahaniaeth mawr i gymunedau lleol.

Yr Her

Os ydyn ni am gynyddu'r manteision mae bysiau yn eu darparu ar gyfer Cymru, mae angen i ragor o bobl ddewis defnyddio bysiau yn hytrach na cheir preifat.

Gyda'n gilydd rydyn ni'n gwneud tua 100 miliwn o deithiau ar fysiau yng Nghymru bob blwyddyn. Ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf, at ei gilydd mae nifer y bobl sy'n defnyddio bysiau yng Nghymru wedi bod yn gostwng. Os nad ydyn ni'n gweithredu nawr, bydd y nifer hwnnw naill yn aros yr un peth neu'n gostwng ymhellach. Bydd hyn yn arwain at ragor o bobl yn defnyddio ceir preifat a rhagor o dagfeydd – a fydd yn arwain at ragor o lygredd aer a llai o wasanaethau lleol ar gyfer pobl sy'n dibynnu ar fysiau.

Ond cyn y gallwn ni annog rhagor o bobl i ddefnyddio bysiau, mae angen inni ddeall pam nad yw pobl yn defnyddio bysiau. Mae eisiau'r canlynol ar ddefnyddwyr bysiau:

- sicrwydd y bydd y bws yn cyrraedd mewn pryd – sy'n golygu y bydd angen amseroedd teithio dibynadwy a gwasanaethau sydd ar gael pan fydd eu hangen ar bobl;
- prisiau tocynnau sy'n rhoi gwerth da am arian:
- mae mynediad at wybodaeth amser real yn bwysig iawn i lawer o ddefnyddwyr bysiau. Maen nhw eisiau gwybod pan fydd y bws nesaf yn dod; a fydd ar amser; a gwybodaeth arall fel a fydd y bws yn cysylltu â'r trêen;
- gwasanaethau bysiau sy'n mynd lle mae defnyddwyr am fynd – boed hynny i'r ysgol, y gwaith, i'r ganolfan chwaraeon neu'r siopau – ac yn dod â nhw adref wedyn.

Rydyn ni'n gwybod bod taith ar y bws yn aml yn arafach na'r un daith mewn car. Rydyn ni hefyd yn deall bod pawb yn gwneud teithiau gwahanol, felly, mae angen hyblygrwydd ar ddefnyddwyr bysiau i newid rhwng dulliau trafndiaeth gwahanol. A fydd y bws yn cysylltu â'r trêen? A yw'n bosibl defnyddio beic am ran o'r daith? A fydd eu car yn ddiogel mewn cyfleuster parcio a theithio?

Ein gweledigaeth a'n blaenoriaethau

Yn Llywodraeth Cymru, ein rôl ni yw cynllunio trafndiaeth yng Nghymru. Rydyn ni'n rhoi cymhorthdal i wasanaethau bysiau (gan gynnwys teithio am ddim), ac rydyn ni hefyd yn gweithio gyda'n partneriaid allweddol i wella gwasanaethau, gan gynnwys y gwasanaethau bysiau masnachol sy'n darparu dros 75% o wasanaethau bysiau yng Nghymru, a'r awdurdodau sy'n chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau lleol, yn ogystal â grwpiau sy'n cynrychioli teithwyr.

Er mwyn gwella gwasanaethau bysiau yng Nghymru, rydyn ni wedi datblygu gweledigaeth a blaenoriaethau newydd.

Wrth galon y rhain mae ein huchelgais i gynyddu'r defnydd o fysiau yng Nghymru, gan fod defnyddio'r bws yn dda ar gyfer unigolion, cymunedau, yr amgylchedd, yr economi a Chymru.

Rydyn ni wedi nodi saith cam gweithredu â blaenoriaeth er mwyn gwneud hyn, gan gynnwys gwneud gwasanaethau'n haws eu defnyddio, yn fwy hygyrch, yn fwy ymatebol ac yn fwy di-dor. Hoffen ni hefyd weld gwasanaethau gwyrddach sy'n rhoi gwerth gwell am arian.

Rydyn ni eisoes yn gwneud gwaith ar rai o'r rhain, ond hoffen ni wneud mwy, gan gynnwys deddfwriaeth newydd a fydd yn rhoi amrediad ehangach o fecanweithiau i awdurdodau lleol, drwy bwerau newydd, i wella gwasanaethau yn eu hardal.

Yn y pen draw rydyn ni am i deithwyr gefnu ar eu ceir a defnyddio'r bysiau. Ac os nad oes ganddyn nhw gar, rhaid iddyn nhw deimlo'n hyderus wrth ddefnyddio'r bws.

Dyma ein gweledigaeth newydd, a'r hyn yr hoffen ni ei wneud i sicrhau gwasanaethau bysiau gwell yng Nghymru.

EIN GWELEDIGAETH AR GYFER BYSIAU

Ein huchelgais				
Ein huchelgais yw cynyddu'r defnydd o fysiau yng Nghymru – gan fod defnyddio bysiau'n dda ar gyfer unigolion, cymunedau, yr amgylchedd, yr economi a Chymru.				
Ein camau gweithredu â blaenoriaeth				
Er mwyn helpu rhagor o bobl i wneud penderfyniad cadarnhaol i ddefnyddio bysiau, rydyn ni am sicrhau bod gwasanaethau bysiau yn bodloni'r meini prawf isod:				
Hawdd eu defnyddio <i>Gwybodaeth amser real well ar gyfer defnyddwyr bysiau.</i>	Hygyrch <i>Rhagor o bobl ac amrediad ehangach o bobl yn hyderus wrth ddefnyddio bysiau.</i>	Ymatebol <i>Gwasanaethau bysiau sy'n mynd â ni lle rydyn ni am fynd, ar yr adeg rydyn ni am fynd.</i>	Di-dor <i>Gwasanaethau bysiau sydd wedi eu hintegreiddio'n well â threnau, cerdded, beicio a defnyddio'r car.</i>	Cyflymach <i>Llai o oedi a llai o dagfeydd ar lwybrau bysiau.</i>
Gwerth da am arian <i>Ar gyfer y trethdalwr, defnyddwyr bysiau a chwmnïau bysiau.</i>		Gwyrddach <i>Fflyd o fysiau sy'n creu llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr.</i>		
Beth rydyn ni'n ei wneud nawr				
Cefnogi tocynnau rhatach neu am ddim ar gyfer rhai grwpiau.	Cyflwyno fflyd o fysiau gwyrddach.	Darparu gwybodaeth well ar gyfer defnyddwyr bysiau.	Archwilio dulliau newydd ar gyfer trafnidiaeth gymunedol.	Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella gwasanaethau lleol.
Beth fyddwn ni'n ei wneud nesaf				
Rydyn ni am basio deddfwriaeth newydd ar gyfer Cymru a fydd yn rhoi pwerau i awdurdodau lleol i deilwra gwasanaethau bysiau i anghenion newydd ac i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Bydd yn eu galluogi i wneud y canlynol:				
Gweithio mewn partneriaeth gyda gweithredwyr bysiau i wella gwasanaethau.	Rhoi contractau i weithredwyr bysiau drwy broses dendro gystadleuol (masnachfreinio).	Dewis darparu gwasanaethau eu hunain.	Gwella gwybodaeth ar gyfer defnyddwyr bysiau.	
Yn y tymor hir hoffem ni weld:				
Awdurdodau lleol sydd â rhagor o reolaeth dros wasanaethau bysiau lleol yn eu hardal.	Cwmnïau bysiau yn darparu gwybodaeth well ac yn gweithio mewn partneriaeth gydag	Defnyddwyr ceir yn newid i ddefnyddio'r bws.	Defnyddwyr bysiau sy'n hyderus y bydd y gwasanaeth yn ddibynadwy.	Buddsoddiadau Llywodraeth Cymru mewn Gwasanaethau Bysiau yn rhoi gwerth da am arian.

	awdurdodau lleol.			
--	----------------------	--	--	--

Ni allwn ni wireddu'r weledigaeth honno ar ein pennau ein hunain.

Mae angen inni barhau i weithio gyda chwmnïau bysiau, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau, mewn byd lle mae'r gymdeithas a thechnoleg yn newid, fod rhwydwaith sefydlog a chydgyssylltiedig o wasanaethau bysiau ar gael i bobl Cymru, sy'n llawn integredig â dulliau trafndiaeth gyhoeddus eraill, yn ddibynadwy, yn fforddiadwy, yn hawdd eu defnyddio ac sy'n cynnig amseroedd teithio sy'n annog pobl i gefnu ar eu ceir.